



HEDDWCH

Rhifyn 74 > Gwanwyn 2020 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear



Cytundeb gwahardd byd-eang sydd ond ag angen ei arwyddo....

Mae llofruddiaeth dorfol yn ddewis moesol syml. Mae bygwth hynny yn fath o derfysgaeth wladol. Egwyddor wallus fu braw-ataliaeth erioed, yn fwy felly nawr wrth i arweinwyr y byd ddarnio cytundebau ac ailgychwyn y ras arfau. Dywedwch wrth ACau, ASau, cynghorwyr, undebwyr llafur a lobïwyr niwclear:

‘Mae’n bryd i ni fod ar ochr iawn hanes.’

Y DIWEDDARAF AR DDIARFOGI BYD-EANG 2020

• Y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear

Cadarnhaodd Paraguay y Cytundeb ym mis Ionawr ac arwyddodd Belize ef ym mis Chwefror. Disgwylir y bydd Iwerddon yn ei gadarnhau yn fuan iawn: cwblhawyd proses y ddeddfwriaeth trwy'r llywodraeth, ac mae nawr yn nwylo'r Arlwydd i'w arwyddo a'i roi yn ngofal y CU. Ar ôl Iwerddon, dim ond 14 gwlad arall sydd eu hangen i gadarnhau'r Cytundeb cyn iddo ddod i rym.

• START (Cytundeb Lleihau Arfau Strategol) Newydd

Mae'r cytundeb hwn ar arfau niwclear rhwng UDA a Rwsia i fod i ddod i ben yn 2021. Dywedodd swyddog yn ngweinyddiaeth dramor Rwsia nad yw'r credu bod digon o amser ar ôl i Mosgo a Washington ddrafftio cytundeb newydd yn ei le cyn i START ddod i ben. Os felly, ni fydd unrhyw derfynau ar arfau niwclear a systemau tanio'r ddwy wlad.



• CAY (y Cytundeb Atal Ymlediad)

Bob 5 mlynedd, mae'r CU yn cynnal cynhadledd i adolygu'r cynnydd – neu fel arall – a wnaed o dan y CAY. Cynhelir hyn yn Ebrill a Mai. Heb os, bydd y gwledydd ag arfau niwclear yn dweud eu bod yn hapus â hynt y broses, a bod y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear yn ymyrryd â hynny ... tra bydd pawb arall yn dweud na wnaeth y gwledydd ag arfau niwclear ddim oll i negydu i gael gwared o'u harfau niwclear.

Brian Jones

BARN

DELIO YN Y TYWYLLWCH

Ym mis Chwefror 2020 cyhoeddodd Llyngesydd yr UD Charles Richard y byddai'r ergyd W93, a oedd i'w ddatblygu ar gyfer taflegrau sy'n cael eu saethu o long danfor, yn rhan o ddêl cydweithredu technegol y cytunwyd arni gyda llywodraeth y DU. A oedd yn dipyn o syndod i senedd San Steffan – dyna'r tro cyntaf iddynt glywed am y peth.

Roedd dêl wedi cael ei gwneud na wyddent ddim byd amdani, un a fyddai'n costio biliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus. Ni fu Trident erioed yn fraw-atalydd annibynnol, a bydd cael olynydd iddo yn clymu'r DU wrth benderfyniadau polisi'r UD am ddegawdau i ddod. Mae olynu Trident yn amlwg yn torri'r Cytundeb Atal Ymlediad.

A chofiwch, da chi, yr amcangyfrifir y bydd cost olynydd i Trident yn £205 biliwn anferthol! Gallai dim ond £10 biliwn o'r swm hwnnw ailgartrefu'r digartref o fewn degawd.

Mae twyll a diffyg tryloywder, atebolrwydd neu broses ddemocrataidd oll yn nodweddiadol o'r drefn Cummings-Johnson hon. Mae'r chwarae'n sicr o droi'n chwerw yn y pen draw. Gyda buddiannau Cymru yn cael eu diystyru beunydd gan haerllugrwydd Johnson, mae angen i'n Senedd ni ymbellhau oddi wrth werthwyr arfau a lobiwyr milwrol-ddiwydiannol-wleidyddol y DU, gan ddangos ei wrthwynebiad i drefedigaethu niwclear a'i gefnogaeth i ryngwladoldeb gwirioneddol heddychlon a blaengar.

Philip Steele

MAE'R CLOC YN TICIAN

Mae JILL EVANS, Cadeirydd CND Cymru, yn gosod y larwm.

Perygl bythol-bresennol

Ar y 23 o Ionawr 2020, gosododd y Bulletin of the Atomic Scientists fyseidd Cloc Dydd y Farn ar '100 Eiliad i Hanner Nos'.

Mae hwn yn fesur o lefel y perygl i'r blaned oherwydd bygythiad arfau niwclear ac yn awr newid yn yr hinsawdd hefyd. Po agosaf yw'r bysedd at hanner nos, mwyaf oll y bygythiad. Gwnaed y cyhoeddiad bod bysedd y cloc yn cael eu symud gan gyn-Ysgrifennydd-Cyffredinol y CU, Ban Ki-moon, Mary Robinson, cyn-Arlywydd Iwerddon, a'r Llywodraethwr Jerry Brown, Cadeirydd y Bwletin.

Heb ei debyg

Dyma'r agosaf ya daeth y byd erioed at drychineb. Hyd yn oed ar adegau o berygl amlwg, fel y 1950au gyda'r profion bomiau hydrogen cyntaf, ac yn ystod y Rhyfel Oer, roedd bysedd y cloc ar dair munud i hanner nos. Yn 2018 a 2019 safent ar ddau funud. Mae'r Bwletin y Gwyddonwyr Atomig a'i gynghorwyr yn cynnwys rhai o'r bobl fwyaf cymwys y byd i ddod i gasgliad o'r fath.

"Mae'r byd yn cerdded yn ei gwsgr trwy dirwedd niwclear sydd newydd droi'n ansefydlog. Mae'r terfynau rheoli arfau sydd wedi helpu i atal trychineb niwclear ers hanner canrif yn graddol gael eu datgymalu."

Bulletin of the Atomic Scientists 2020

Yn fwyaf nodedig, mae'r Bwletin yn dwyn y gof ddatganiad Reagan-Gorbachev ym 1987-88: "Ni ellir ennill rhyfel niwclear ac ni ddylid byth ei ymladd." Rhaid aibwysleisio hynny ar fyrder.

Perygl ymlediad niwclear

Rhaid dwysáu'r ymdrechion i sicrhau bod cynadleddau rhyngwladol sydd i ddod yn penderfynu i weithredu ar unwaith. Yn Ebrill



a Mai cynhelir Cynhadledd y CU i Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAYN) yn Efrog Newydd. Cynhelir y gynhadledd hon bob pum mlynedd. Bydd gwledydd sy'n rhan o'r CAYN, arbenigwyr mewn diarfogi, seneddswyr ac eraill sydd â gwybodaeth berthnasol yn dod at ei gilydd. Gwneir ymdrechion i lobio'r CAYN i gryfhau ac ehangu'r cytundebau cyfredol a bwrw ymlaen go iawn tuag at ddiarfogi, yn cynnwys cael mwy o wledydd i arwyddo a chadarnhau'r cytundeb ar wahardd arfau niwclear a galw cynhadledd ar arfau niwclear.

COP26 Glasgow

Ym mis Tachwedd cynhelir trafodaethau hollbwysig y CU ar yr hinsawdd, COP26, yn Glasgow. Rhain fydd y trafodaethau pwysicaf ers cytundeb Paris yn 2015.

Ni allwn fethu'r cyfle i roi gwledydd yn ôl ar y trywydd iawn mewn perthynas ag ymrwymadau a wnaed ym Mharis. Mae p'run ai a fydd COP26 yn mynd yn ei flaen yn destun trafod oherwydd cyfyngiadau a osodwyd gan lywodraethau ledled y byd mewn ymateb i fygythiad y feirws COVID-19.

Nid welsom unrhyw beth tebyg i'r un lefel o ymateb gan y llywodraeth i Gloc Dydd y Farn, sy'n neges mor ddifrifol i'r byd. Nid yw parhau i gerdded yn ein cwsgr yn opsiwn. Rhaid inni fod yn gwbl effro i'r perygl anferthol, a mynnu gweithredu go iawn.



Linda Rogers a Thomas Pitt yn cynrychioli CND Cymru ym Mharis.

FFORWM PARIS ICAN

Ar Chwefror 14-15 mynychodd dau gynrychiolydd o CND Cymru fforwm yr Ymgyrch Ryngwladol dros Ddileu Arfau Niwclear (ICAN) ym Mharis. Fe ofynsom iddynt am eu hargraffiadau

Gweler <https://paris.icanw.org/>

Thomas Pitt

Prin ei bod hi'n gyfrinach ein bod yn byw mewn amserau ansicr o safbwynt arfau niwclear. Gyda chytundebau fel un 1978-2019 ar Luoedd Niwclear Canolradd yn mynd i'r gwellt, a thensiwn cynyddol rhwng gwledydd ag arfau niwclear (fel India a Phacistan), does dim prinder materion sy'n destun pryder byd-eang.

Yn y cyd-destun hwn, mae hyd yn oed yn bwysicach bod yna ymgyrch ryngwladol gref sy'n galw am ddileu arfau niwclear. Adeiladu mudiad o'r fath oedd bwriad Fforwm Paris ICAN ym mis Chwefror, a ddaeth â gweithredwyr ifanc a hen ynghyd o bedwar ban y byd. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol atgof chwerw o

erchyllterau rhyfel niwclear gan Setsuko Thurlow, un a oroesodd fom Hiroshima ac ymgyrchydd dros ddiafogi ers amser maith. Wrth agor y fforwm, roedd ei thystiolaeth bwerus yn ddisgrifiad dirdynol o'r diwrnod tyngedfennol hwnnw ym mis Awst 1945, yn dangos pwysigrwydd parhaus sicrhau bod lleisiau'r *hibakusha* yn cael eu clywed.

Gwelodd gweddill y fforwm, a oedd yn para deuddydd, amrywiaeth o siaradwyr rhagorol o lawer o sefydliadau amrywiol, yn gynnwys Extinction Rebellion, Black Lives Matter, Confederasiwn Rhyngwladol yr Undebau Llafur a'r Ganolfan Polisi Tramor Ffeministaidd. Pwysleisiodd llawer o'r siaradwyr yr angen am

i'r mudiad fod yn groestoriad sy'n cydweithio i frwydro yn erbyn heriau diffiniol ein hoes. Er gwaetha'r holl rwystrau sy'n ein hwynebu, mae lle i fesur o optimistiaeth ofalus. Gyda'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear yn denu cefnogaeth, ymddengys mai dim ond mater o amser yw hi cyn iddo ddod i rym. Ac er bod ffordd bell i fynd eto yn y frwydr dros ddiafogi byd-eang, roedd yn galonogol iawn gweld cymaint o bobl ifanc ym Mharis yn barod i weithredu'n wleidyddol. Roedd Fforwm Paris ICAN, felly, yn llawer mwy na chyfle i rwydweithio a rhannu syniadau; roedd yn hwb mawr ei angen i'r ysbryd a fydd, mae'n siŵr gen i, wedi ysbrydoli llawer i fynd allan a newid y byd.

Linda Rogers

I ddechrau ar y diwedd ... mae gen i ddamcaniaeth, mewn grŵp o bobl, os oes gan un ohonynt gwestiwn, yna bydd gan eraill yr un cwestiwn hefyd. Gyda hynny mewn golwg, codais yn sesiwn olaf y gynhadledd i ofyn sut y gallem uno ein lleisiau orau, ar adeg pan fo'r cloc yn tician mor gyflym a'r lluoedd sy'n sefyll yn ein herbyn, ym myd natur a'r byd gwleidyddol, mor bwerus. Roeddwn yn teimlo panic, ag angen rhywbeth congrid i afael ynddo ar ddiwedd profiad cynhwysol, meddylgar a hynod atgyfnerthol, ac roedd y syniad o wynebu'r hyn a oedd tu allan

◀ i waliau cysurlon y gynhadledd yn sydyn yn frawychus – dychwelyd i fyf a freal gwladwriaeth a oedd yn gadael Ewrop, gydag arweinyddiaeth yn Llundain sydd wrthi'n hyrwyddo popeth roeddem wedi bod yn ymgyrchu yn ei erbyn dros y deuddydd diwethaf ym Mharis. Ceir yr ateb yn rhannol, wrth gwrs, yng ngwaith ymgyrch ICAN ei hun ac mewn hyrwyddo'r cytundeb rhyngwladol mewn cymaint o fforymau â phosib. Mae'r ateb hefyd ym mhresenoldeb a chefnogaeth yr holl leisiau gwahanol o lu o ymgyrchoedd a ddaeth i Baris i hyrwyddo ICAN, a'r angen i ni, yn ein tro, eu cefnogi nhw.

Clywsom leisiau o Balesteina, a rhai pobl a oroesodd y bom niwclear, rhai sy'n ymladd effeithiau ofnadwy mwynloddio wraniwm, rhai sy'n gweithredu'n uniongyrchol yn erbyn newid yn yr hinsawdd, rhai sy'n ymladd dros hawliau cyfartal a phobl ifanc sy'n ffeindio'u ffordd mewn byd lle maent yn llais lleiafrifol – a phob un, o, mor ddewr. Ac roedd yr arwriaeth dawl dorfal hon yn sydyn yn ysgubol. Beth oedd y ffordd orau o'i gefnogi? Buom yn ffodus, fel cynrychiolwyr

CND Cymru, i gwrdd â llawer o gynrychiolwyr a gynigiodd adrodd eu straeon yng Nghymru, felly gwyliwch y gofod hwn. Byddwn yn anelu at gwrdd ar achlysuron fel yr Eisteddfod ac yn COP26, a bwriadwn hefyd ailymweld â Faslane gyda'n cyd-ymgyrchwyr yn yr Alban. Mae angen alinio gwleidyddol hefyd gyda'r pleidiau hynny gartre sy'n gweld y cysylltiadau rhwng rhyfel niwclear a newid hinsawdd ac sy'n barod i glywed y straeon a adroddwyd mor bwerus ac mor syml ym Mharis.

DIWRNOD CYTUNDEB ICAN YN Y SENEDD

Polisi llywodraeth y DU yw anwybyddu Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear, a chyn belled, ychydig iawn o sylw a roddwyd iddo yn y cyfryngau hefyd.

Felly diolch o galon i **Mike Hedges** AC am groesawu digwyddiad galw-heibio llwyddiannus gan CND Cymru–ICAN yn y Senedd ar y 4 o Fawrth i hyrwyddo'r ymgyrch. Gyda'r ffilm, *The Beginning of the End of Nuclear Weapons*, yn rhedeg yn y cefndir, bu grŵp o aelodau a chefnogwyr brwd wrthi'n annog cynrychiolwyr etholedig i arwyddo'r Addewid i Ddileu Arfau Niwclear.

Roedd rhai ACau wedi arwyddo eisoes ac yn awr, mae mwy byth o lofnodion at y rhestr! Ydy eich AC neu AS chi wedi arwyddo eto? Ceir y rhestr ddiweddaraf o'r rhai sydd wedi arwyddo yn www.cndcymru.org/ican-the-international-campaign--against-nuclear-weapons

Os nad ydynt ar y rhestr, da chi, anfonwch air atynt neu ymwelwch â'u cymhorthfa etholaeth i'w hannog i ymuno â'r ymgyrch sy'n tyfu beunydd i ddileu arfau niwclear o'r byd – a sicrhau mai 2020 yw'r flwyddyn yr arwyddodd pob un o'n cynrychiolwyr etholedig yr addewid!

Mary Jones

heddweithredu:

A fedrwch chi drefnu dangosiad o'r ffilm awr o hyd, *The Beginning of the End of Nuclear Weapons* – copïau (ar go' bach) ar gael oddi wrth CND Cymru.



Rob Anderson

Y digwyddiad Gwaharddiad Byd-eang yn y Senedd

GWNEWCH EICH CYNGOR YN ATEBOL!

Ym mha beth mae Cronfa Bensiwn eich Cyngor lleol yn buddsoddi a pha mor foesebol yw eu buddsoddiadau, sy'n dod o'ch Treth Gyngor? Fel cyn-gyfrifydd rheolaeth, penderfynodd David Wood edrych yn fanwl ar gronfa pensiwn.

Fis Mehefin diwethaf, cyhoeddodd Cyngor Abertawe Rybudd o Gynnig ar yr Argyfwng Hinsawdd a nodai eu bod am ymddihatu o fuddsoddiadau tanwydd ffosil. Hawlient bod Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe gyda'r cyntaf i fabwysiadu polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant.

I ble mae'ch arian chi'n mynd?

Mae Cronfa Bensiwn Cyngor Abertawe (CBCA) yn buddsoddi, yn eu hadran 'Cyfranddaliadau Ecwiti Uniongyrchol Mwyaf yn ôl Gwerth y Farchnad', £52,855,000 yn Royal Dutch Shell a BP, £21,363,000 arall yn British American Tobacco, a £18,637,000 yn Rio Tinto. Does yr un o'r rhain yn foesebol nac yn dda i'r amgylchedd, ond buddsoddiadau Rio Tinto a ddaliodd fy llygad. Mae Rio Tinto yn berchen ar 68.4% o Energy Resources of Australia Cyf, sydd wedi cloddio 128,000

tunnell o ocsid wraniwm dros y tri degawd diwethaf.

Defnyddir wraniwm ocsid i wneud rhodenni tanwydd ar gyfer adweithyddion niwclear sifil a milwrol, ac er bod Rio Tinto wedi datgan na werthir ocsid wraniwm i Iran, Gogledd Korea a Saudi Arabia, ni allant fod yn sicr na phrynwyd unrhyw un gan drydydd partion a'i werthu ymlaen.

Hen bryd dadfuddsoddi?

Cysylltais â Chadeirydd CBCA gan awgrymu dadfuddsoddi o Rio Tinto gan eu bod yn un o'r cwmnïau mwyaf niweidiol i'r amgylchedd ar y blaned, ond gwrthododd y Chadeirydd, gan nodi bod Rio Tinto yn cloddio am lithiwm a ddefnyddir mewn batris cerbydau trydan, ac y gwnâi hynny e'n gwmni 'moesebol'. Ar ôl i mi brotestio trwy ebost mai dim ond project peilot yw menter lithiwm Rio Tinto i fwyngloddio 10 tunnell o lithiwm y flwyddyn, gyda'r nod gobeithiol braidd o fwyngloddio

5,000 tunnell y flwyddyn, ni chefais ateb pellach.

Penderfynais alw ar arweinydd un o'r gwrthbleidiau, a addawodd yn ffyddlon i 'edrych i mewn i fuddsoddiad' CBCA yn Rio Tinto. Ni ddigwyddodd dim.

Clustiau byddar

Wrth agosáu at Ddiwedd Blwyddyn CBCA, edrychais ar y farchnad stoc i weld faint o elw a wnaeth eu buddsoddiad yn BP, Royal Dutch Shell, British American Tobacco a Rio Tinto. Dim ond British American Tobacco a wnaeth elw (tua 18%); collodd y ddau gwmni tanwydd ffosil tua 25% yr un yn ystod y 12 mis diwethaf. Collodd Rio Tinto tua 17%, sef rhyw £1,591,000, o'u Cronfa Bensiwn. Cysylltais eto ag arweinydd yr wrthblaid i'w hysbysu o'u colledion, gan obeithio y byddent yn tynnu allan o Rio Tinto: roedd hyd yn oed dadansoddiadau'r broceriaid stoc yn dweud 'gwerthu, nid prynu'. Syrthio ar glustiau byddar wnaeth y rhybudd eto, a pheidiodd yr ebyst. Wrth i ni fynd i'r wasg, mae'r farchnad stoc yn plymio eto.

heddweithredu:

Mae'n hanfodol craffu ar fuddsoddiadau cronfa pensiwn eich Cyngor. Os ydynt yn anfoesebol – galwch nhw i gyfrif.



Cyngor Abertawe
Swansea Council



LLE NA DDAETH Y RHYFEL BYTH I BEN ...

ANGHARAD TOMOS yn galw ar ymgyrchwyr heddwch i nodi 80 mlwyddiant y troi allan ar Fynydd Epynt.

Cofiwch yr Epynt

Gyda 'Cofiwch Tryweryn' wedi codi cymaint o gywreinrwydd yn 2019, mae ambell slogan 'Cofiwch yr Epynt' wedi ymddangos ar waliau Cymru eleni. Gweddus yw hynny gan fod 80 mlynedd eleni ers 'y troi allan'.

Mae hanes yr Epynt yn llai cyfarwydd i bobl Cymru na hanes boddi Cwm Tryweryn, ond mae yr un mor bwysig. Darn o Sir Frycheiniog yw cymdeithas Mynydd Epynt, nid un pentref, ond cymuned o ffermydd gwasgarog oedd yn arfer bod yn gadarn ei Chymreictod. Mae llawer o'r hanes i'w gael yn llyfr *Mae'n Ddiwedd Byd Yma* gan Herbert Hughes, (Gomer, 1997).

Derbyniodd pobl Epynt lythyr gan y Swyddfa Ryfel yn gynnar ym 1940 yn dweud wrthynt am adael eu cartrefi cyn dydd olaf Ebrill y flwyddyn honno. Roedd y Fyddin am ei ddefnyddio i saethu magnelau. Bu hyn yn sioc enbyd i'r bobl, llawer wedi ei geni yn yr un tai â'u tadau a'u teidiau. Bu gwrthwynebiad, ond yr unig gyfaddawd gaed oedd newid y dyddiad ymadael i ddydd cyntaf Mehefin wedi i'r tymor ŵyna ddod i ben. Fel yn achos Tryweryn, caewyd yr ysgol am y tro olaf, a chaewyd Capel y Babell. Mewn dim, yr oedd y teirw dur yno yn tynnu'r ffermydd i lawr. Gyrrwyd dros ddau gant o bobl a phlant o 54 o ffermydd a thyddynod ac ni chafwyd y tir yn ôl.

Heddiw, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn berchen 30,000 erw o fynydd-dir Epynt. Os edrychwch ar y map, mae llawer o enwau'r ffermydd wedi diflannu, a'r cyfan sydd i'w weld yw'r geiriau 'DANGER AREA'.

Cymryd mantais o'r Rhyfel wnaeth y Fyddin. Roeddent â'u llygaid ar y fan mor bell yn ôl â 1912, gan ei fod yn lle anial, a bod y tir mawnog yn ddelfrydol ar gyfer saethu magnelau. Daeth y lle i amlygrwydd yn go ddiweddar wrth i filwyr ifanc golli ei bywydau ar y mynydd yn ystod ymarferiadau.

Yn 'psyche' y Cymry, mae'n lle pwysig o gofio mai yng Nghefnbrith y magwyd John Penry, ac yma wrth gwrs mae cartref yr emynydd, William Williams Pantycelyn. Bydd sylw yn cael ei roi i chwalfa'r Epynt ym mis Awst, yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, sydd dros y mynydd i Epynt.

heddweithredu:

Mae'n fwriad cael pobl i ddod ynghyd ar Fynydd Epynt ar Ddydd Heddwch, Medi 19. Gan fod saethu yn digwydd yn gyson, dim ond ar adegau prin y mae modd cael caniatad i fynd yno.

Yn ogystal â dysgu cenhedlaeth newydd o bobl am 'y troi allan' yn Epynt, mae'n bwysig dangos cymaint o dir Cymru sydd wedi ei gymryd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, nid yn unig ar Epynt, ond yn Y Fali, yn Llanbedr, yn Aberporth, Trecŵn a sawl lle arall. Cadwch eich llygad am fanylion pellach, a pheintiwch y slogan ar waliau Cymru!



Angharad Tomos

Neges yn Llanrug

MWD HINKLEY – AIL GYNNIG

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyhoeddi “blaenymgynghoriad” newydd ar gynlluniau EdF yn 2021 i garthu deunydd pellach o Fae Bridgwater. Dyma lle bu pibellau all-ifo Hinkley Point A a B yn gollwng gronynnau ymbelydrol ers y 1960au. Bydd y gwaddod sy'n cynnwys y gronynnau ymbelydrol yn cael ei ddympio ger Bae Caerdydd, ar safle gwasgaru morol Caerdydd. Mae hyn oll yn rhan o waith adeiladu EdF i godi gorsaf bŵer niwclear Hinkley Point C, a fydd – os caiff ei chwblhau – yn cynhyrchu'r trydan drutaf yn y byd.

Cwestiynau allweddol

Mae a wnelo'r ymgynghoriad cychwynnol hwn ag (a) y fethodoleg samplu i'w defnyddio i asesu faint o ymbelydredd sydd yn y gwaddod, a (b) p'run ai bod angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA). Mae'r wybodaeth ar gyfer (a) ar y wefan; does dim ar gyfer (b) wedi'i gyhoeddi eto. Mae Tim Deere-Jones yn llunio ein cyflwyniad i'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ganol mis Mawrth.

Data ar ymbelydredd


Caiff darlenniadau ymbelydredd o amgylch safle Hinkley (a safleoedd niwclear eraill) eu cymryd bob blwyddyn gan RIFE, Radiation In Food and the Environment,

un o gyrff llywodraeth y DU. Ar ôl y carthu yn 2018, dangosai 16 o'r 18 pwynt a fesurwyd lefelau uwch o ymbelydredd; roedd 6 o'r darlenniadau wedi mwy na dyblu. Mae'r tebygolrwydd y byddai 16 allan o 18 mesuriad wedi digwydd cynyddu ar hap, fel y dadleua EdF, yn rhyw 1 mewn 1,700. Mae mesuriadau RIFE yn awgrymu'n glir bod y gwaith traethlin yn Hinkley wedi cyffroi gronynnau ymbelydrol, a fuasai'n gymharol sefydlog yn y gwaddod, a'u rhyddhau i'r amgylchedd – yn union fel y rhagwelwyd gennym.

Cynhyrfu'r dyfroedd

Dim ond cynyddu'r ymbelydredd yn yr ardal a wna carthu pellach, a bydd dympio'r gwaddod yn golygu y bydd gronynnau ymbelydrol yn cael eu taenu ar hyd aber afon Hafren. Gan na chymerwyd unrhyw fesuriadau ymbelydredd ar arfordir de Cymru, chawn ni byth wybod faint o gynnydd a fu mewn lefelau ymbelydredd o ganlyniad i adeiladu Hinkley Point C.

Brian Jones



CLADDU GWASTRAFF NIWCLEAR

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i ymgynghoriad 2019 ar y CGD (Cyfleuster Gwaredu Daearregol). Mae'n sgileiniog ac i fod i dawelu ofnau. Y pwyntiau pwysig yw:
– Mae gan Lywodraeth Cymru “ddull sy'n seiliedig ar gydsyniad o weithio mewn partneriaeth â chymunedau ac awdurdodau lleol perthnasol at ddibenion nodi lleoliadau addas gyda chymuned sy'n fodlon derbyn CGD”.

– Rhaid hysbysu pob awdurdod lleol perthnasol cyn gwneud unrhyw gynnig yn gyhoeddus.

– Rhaid i o leiaf un awdurdod lleol perthnasol gytuno i gymryd rhan. Pan fydd awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu peidio â bod yn aelod, yna ni fydd yr ardaloedd cyngor cymuned o fewn ei ffiniau yn ffurfio rhan o gymuned letyol bosibl. Gellir gweld y ddogfen lawn yn y fan hon:
<https://www.gov.uk/government/publications/the-siting-process-for-a-geological-disposal-facility>
<https://www.gov.uk/guidance/communities-and-gdf.cy>

WYLFA – BE SY’N DIGWYDD?

Yn swyddogol, dydi prosiect Wylfa B ddim wedi cael ei ganslo, dim ond ei “rewi”. Dyna pam mae Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru yn dal i’w gefnogi.

Dywed ein cyfeillion yn Siapan nad oes yna sôn am Wylfa yno bellach, felly y casgliad ydi mai ceisio gwerthu’r safle a wnaiff Hitachi (os na fydd Llywodraeth Llundain yn cytuno i warantu holl gost yr anghenfil).

Gorchymyn Cydsyniad Datblygu

Yn dilyn gohiriad yn Hydref 2019, disgwylir penderfyniad gan Lywodraeth San Steffan ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (Development Consent Order – DCO) ddiwedd mis Mawrth 2020. Byddai hyn yn golygu fod hawl i adeiladu atomfa ar y safle – a gallai hynny fod gan gwmni arall yn defnyddio technoleg wahanol. Fuasech chi’n cael adeiladu tŷ ar ôl newid y cynlluniau heb i’r caniatâd gwreiddiol gael ei adolygu?

RAB – chi sy’n talu!

Gan fod Hitachi wedi mynnu nad oedd Llywodraeth Llundain wedi addo digon o sicrwydd ariannol iddyn nhw – a hynny ar waetha’r addewidion eithriadol o hael a wnaed – mae’r Llywodraeth yn edrych ar ddull o arian y fyddai’n symud bron y cyfan o risg Wylfa B oddi wrth y cwmni a’i roi yn gyfangwbl ar ysgwyddau’r trethdalwr a’r talwr biliau trydan. Enw Orwelaidd yr anrheg hwn yw ‘Regulated Asset Base’ neu RAB. Yr unig RAB gwerth ei ganmol ydi Rab C Nesbitt!

HORIZON YN ERBYN KATIE

Mae Katie Hayward yn byw ym Melin Cafnan, sy drws nesa i safle’r Wylfa, a hi yw perchennog ‘Felin Honey Bees’. Ers blynnyddoedd, bu dan warchae gan Horizon, er mwyn ei chael allan o’i chartref. Bydd ffilm am ei hanes yn cael ei ddangos yn Cannes a Gwyliau Ffilm ledled y byd. Bydd fersiwn fer 20 munud ar gael yn rhad ac am ddim.

ARWYDDO DEISEB

Mae CND Cymru yn annog ei holl gefnogwyr i arwyddo’r ddeiseb CND-DU hon – dileu pob cynllun ar gyfer adweithyddion newydd; atal cynhyrchu unrhyw bŵer niwclear; ymrwymo i ynni adnewyddadwy.

heddweithredu:

https://cnduk.org/actions/no-to-nuclear-power-petition/?fbclid=IwAR2Px9KL0tmQN4u-itwa5KDGBnJtloodnRW-yNjLhSO58IRz1kUHa_B3muk

TRAWSFYNYDD

Mae’r ymgyrch yn erbyn Adweithydd Modiwlaid Niwclear Bychan (Small Modular Nuclear Reactors – SMNR) yn poethi. Bellach mae PAWB a CADNO yn gweld y frwydr wrth-niwclear yn un yma yn y Gogledd – fedrwn ni ddim diystyru’r posibilrwydd o SMNR yn yr Wylfa hefyd os na cheir adweithydd mawr yno. Mae Mabon ap Gwynfor, sy’n wrth-niwclear, wedi ei ddewis fel ymgeisydd Plaid Cymru yr ardal ar gyfer Senedd Cymru. Cofiw’n fod Liz Saville Roberts, yr AS lleol, a Chyngor Gwynedd (y ddau yn Blaid Cymru) yn cefnogi SMNR ers blynnyddoedd. Sgwn i os mai dyna pam mae yna sôn yn fwyaf sydyn am gynhyrchu eisotopiau meddygol yn Traws? Siwgrwr ar y bilsen, efallai?

Robat Idris, PAWB



Protestwyr PAWB ar Bont Menai yn nodi nawmlwyddiant Fukushima 11 Mawrth 2020

O FÔN I FYNWY AROUND WALES



• Ystradgynlais – anrhydeddu Eunice Stallard

'Menyw dros Fywyd ar y Ddaear' a 'Menyw Greenham': coffawyd y diwedd ar Eunie Stallard yn Neuadd Les y Glowyr yn Ystradgynlais ym mis Mawrth. Wrth ddadorchuddio'r Plac Porffor, dywedodd gor-wyres Eunice, Megan Martin: 'Roedd yn bwysig i Eunice, i ddefnyddio'i hunaniaeth fel mam, mam-gu a hen fam-gu i brotestio yn erbyn arfau niwclear, er mwyn diogelu plant a'r dyfodol.' Meddai Jane Hutt, AC Bro Morgannwg: 'Mae Eunice Stallard yn esiampl i ni i gyd, a dwi wrth fy modd ei bod wedi cael ei hanrhydeddu â phlac – ffordd ffantastig



a phriodol o ddathlu Dydd Rhyngwladol y Menywod.' Y daith gerdded o Gaerdydd i Gomin Greenham yn Berkshire, Lloegr, a esgorodd ar Wersyll Heddwch Comin Greenham ym 1981.



Chwarae Teg

• Caerdydd – ffocws ar y Dwyrain Canol

Fis Ionawr 2020, clywyd cyfarfod a noddwyd ar y cyd gan CND Cymru a Chymdeithas y Cenhedloedd Unedig Caerdydd, Delyth Jewell AC a'r Athro Sergey Radchenko yn trafod y Dwyrain Canol, Arfau Niwclear a Diarfogi Niwclear. Roedd mor llwyddiannus nes y bwriedir trefnu cyfarfodydd pellach ar y cyd, y nesaf yng ngwanwyn 2021, gyda Jill Evans yn trafod y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear.

• Aberystwyth – dwy yn gytûn

Cyfarfu CND Cymru yng nghanolfan Morlan,

Aberystwyth ar y 7 o Fawrth am gyfarfod pwyllgor a ddilynwyd gan gwrdd cyhoeddus. Er gwaethaf ofnau am y feirws a gêm rygbi a oedd i fod i ddigwydd, roedd yn brynhawn a'n goleuodd ac a'n hysbrydolodd. Siaradodd Linda Pentz Gunter o Beyond Nuclear â'i heglurdeb nodweddiadol am SMNRs a mynd ymlaen i drafod strategaeth ymgyrchu, yn amserol iawn o ystyried y dyfalu cyfredol yn y wasg am Drawsffynydd. Roedd ei barn yn cyd-daro â barn Linda Rogers, a nododd fod Fforwm ICAN Paris yn ysbrydoliaeth â'i undod rhyngwladol (gweler

t. 4), a sôn am ffyrdd y mae barn gwleidyddion a'r cyhoedd ar fraw-ataliaeth a diarfogi yn graddol newid.

• Bae Caerdydd – adladd Ffai Arfau DSEI

Beirniadwyd cefnogaeth llywodraeth Cymru i ddiwydiant arfau'r DU yn hallt wedi'r datgeliad y gwariwyd £95,000 ar anfon swyddogion i Ffai Arfau DSEI yn Llundain, ym mis Medi 2019. Dywed y llywodraeth fod angen ei phresenoldeb i roi hwb i gwmnïau yng Nghymru sy'n cynhyrchu dronau, rhannau llongau tanfor niwclear, systemau TG milwrol neu'n sy'n darparu cyfleusterau profi cadoffer.

O FÔN I FYNWY AROUND WALES



Porthmadog – Cyfarfod CADNO
Adroddiad Meilyr Tomos.

Yn ôl sawl un sy'n ein cynhyrchioli, does fawr o wrthwynebiad i'r holl glochdar diweddar am safle Trawsfynydd, a'r awydd mawr sydd gan rai i arbrofi gyda thechnoleg SMNR ar y safle. Braf felly oedd gweld festri Salem Porthmadog dan ei sang gyda chroesdoriad iach o ffarmwrs, amgylcheddwrs, a jest pobl Meirionydd oedd yn gwbwl unfryd eu gwrthwynebiad.

Cafwyd croeso gan Deilwen Evans: i'r rhai sydd ddim yn ei hadnabod, mae Deilwen wedi bod yn gyson drwy'r degawdau yn cadw llygad barcud ar safle Traws, ac yn un o sylfaenwyr CADNO. Braf yna oedd croesawu Mabon ap Gwynfor, darpar ymgeisydd Plaid Cymru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2021. Cyflwynodd Mabon ei safbwynt yn graff, ac o'r galon, ac roedd yn ein hannog i fynd ati i godi ein llais ar

bob lefel, fel bo'r rheiny sy'n honni bod croeso i'r arbrofi yn dechrau deall sut mae pethau ar lawr gwlad go iawn.

Yn anffodus, oherwydd gwaeledd teuluol methodd Linda Pentz-Gunter â bod yn bresennol, felly fe geisiais grynhoi ei nodiadau bachog ar ei rhan, a rhoi dipyn o gefndir i'r sefyllfa gydag SMNRs ochr draw i'r Iwerydd. Agorwyd trafodaeth wedyn. Mae'n fy syfrdanu bob tro pa mor ddwfn, treiddgar a thechnegol wybodus gall sgyrsiau fel hyn fod.

Daethpwyd i gytundeb unfrydol fod angen dechre' bloeddio – tydi pobol Meirionydd ddim eisiau bod yn 'guinea pigs' unwaith eto. Mae angen y swyddi yma ers degawdau. Mae angen datrys tlodi tanwydd yma ers yr un mor hir. Mae angen gwynebu heriau newid hinsawdd arnom rwan, nid oedi am ddegawdau eto am addewidion gwag y diwydiant niwclear.



Sefyll yn gadarn yn erbyn SMNRs: CADNO'n paratoi i wrthwynebu

• Pont Menai – cofio Fukushima

Ar 11 Mawrth 2020 meddiannodd cefnogwyr PAWB, CND Cymru, XR ac eraill unwaith eto ochr Ynys Môn i'r bont grog er mwyn cofio dioddefwyr Fukushima. Cafodd y ddamwain honno effaith fawr ar farn y byd, a effeithiodd, yn ei dro, ar y diwydiant niwclear ledled y byd. Rhoddodd Dylan Morgan y wybodaeth ddiweddaraf am Fukushima, ac yna tynnodd sylw at y materion cyfredol gyda Wylfa B, Trawsfynydd ac SMNRs (gweler t.9). Chwifia'r baneri lliwgar yn hwyliog, cadwodd y glaw draw, a chanai cyrn y traffig oriau-brig eu cefnogaeth. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn falch o ddianc rhag newyddion y bore, gyda'i gylchdro digalon o firws, y gyllideb a'r tywydd gwael. Gwell oedd bod yma yn gwneud pwynt mewn cwmni da!

NERTH Y GÂN

Am bedwar degawd bu Côr Cochion yn gyfystyr â radicaliaeth Gymreig a chydysafiad rhyngwladol. Dyma Wendy Lewis yn dathlu.

Yn yr amserau cythryblus hyn, cawn ein temtio weithiau i ildio i anobaith dros yr argyfwng hinsawdd, neu erydu ar hawliau y brwydrwyd mor galed i'w hennill ac y credem y gallem eu cymryd yn ganiataol. Ond mae canu'n rhoi nerth inni. Canwn i fynegi ein dicter, ein cydsafiad ac yn anad dim, ein cysylltiad â'n gilydd. Ar orymdaith, nid canu i'r rhai mewn grym na fynnant ein clywed fyddwn ni, ond i galonogi'r rhai o'n cwmpas.

Mae gan bob cenhedlaeth frwydrau newydd, a chaneuon newydd, i'w mynegi, ac mae'n aildarganfod yr hen rai sy'n dal i'n denu. Mae'n wefr i ni allu lleisio geiriau'r Siartydd Ernest Jones, neu Joe Hill, a gwybod nad yw eu brwydrau dros heddwch a chyfiawnder yn anghof, a bod eu caneuon yn dal i fyw.

Côr Cochion Caerdydd

Ganed Côr Cochion ym 1983 ar orymdaith i goffáu dengmlwyddiant y coup yn erbyn Allende yn Chile, wedi'i ysbrydoli gan ganeuon Victor Jara ac Inti Illimani. Ond roedd ei brif ffocws ar y dechrau yn nes at adre: Streic y Glowyr, pan fygythiodd ymosodiad Thatcher ar yr undebau llafur enaid einioes cymunedau cryf cymoedd de Cymru. Benthycwyd ac ail-sgrifennwyd caneuon o'r traddodiad corawl Cymreig – roedd TE Niclas wedi darparu geiriau sosialaidd i lawer o emynau cyfarwydd.

Fe ddysgon ni ganeuon gan y Wobblies yn yr UD, rhai o'r mudiad Anti Apartheid a'r ymgyrch dros hawliau sifil yng Ngogledd Iwerddon; f'en hysbrydolwyd gan Peggy Seeger, Joan Baez, Dafydd Iwan, Maria Tolley. Dechreuodd y côr gasglu ar gyfer grwpiau cymorth i'r glowyr, a llifodd yr arian i mewn gan y cyhoedd.

Mae'n beth mor arbennig gallu canu caneuon â geiriau sy'n golygu rhywbeth i bobl. Lawer tro cawsom ymateb emosiynol, dagreuol weithiau: 'Rydych chi'n canu fy nghân i!' gan rywun o Balesteina, Iwerddon, Chile neu Dde Africa.

Yn Drumcree, yng Ngogledd Iwerddon, roedd y fyddin wedi amgylchynu'r stâd lle'r oeddem yn aros â thanciau, er mwyn caniatáu i orymdaith Oren fynd yn ei blaen. Allai'r gymuned Gatholig

ddim croesi'r ffordd i fynd i'r eglwys. Yn y bore cynhaliwyd offeren awyr-agored yn y sgwâr a gofynnwyd i ni ganu caneuon rhyddid yn y gwasanaeth. Gall canu yn aml dawelu sefyllfa lawn tyndra. Pan ddechreuodd cefnogwyr y Contras a Cheidwadwyr Ifanc weiddi'n fygythiol yn erbyn rali i gefnogi Nicaragua, edrychai pethau'n hyll; ond dyma ni'n canu a dyma hwythau'n toddi ymaith o'r gwrthdaro.

Dysgodd y côr ganeuon Arabeg ar gyfer taith gefnogi o gwmpas Palesteina/Israel. Yn ystod yr egwyl fer o heddwch cymharol ym 1994 ar ôl cytundeb Oslo, roedd yn agoriad llygad i weld drosom ein hunain effaith y goresgyniad. Roedd ein canu yn pontio rhwystrau ieithyddol a diwylliannol. Heddiw, mae anthemau newydd fel "We're Standing Here" gan Dave Ramsden wedi deillio o'r mudiad amgylcheddol.



Côr Gobaith, Aberystwyth

Deilliodd Côr Gobaith (CG) o Fforwm Cymdeithasol Cymru 2005, ar ôl cyfarfod gweithdy ar hap rhwng Susie Ennals a minnau. Roeddwn yn dyheu am gychwyn côr yn Aberystwyth, ac wedi hwb frwd gennyf, cynhaliodd Susie yr ymarfer cyntaf yn 2006.

Ar ôl addo canu yn y stryd ar Sadwrn olaf pob mis nes i ryfel Irac ddod i ben, mae CG yn dal wrthi, yn canu dros heddwch a chyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol – sydd oll yn faterion cynyddol ddifrifol. Gwibdaith gyntaf y côr oedd i brotest 'Time To Go (Blair)' Manceinion ym mis Medi 2006. Dilynodd gwrthdystiadau yn lleol a ledled y DU, ar faterion diflas o niferus – Trident, toriadau



i wasanaethau cymdeithasol, y GIG, Palestina, ffracio, ffoaduriaid, argyfwng yr hinsawdd ... Yn 2013, gyda Nest Howells bellach yn arweinydd y côr, fe wnaethom gynnal Gŵyl Corau Stryd (y DU) a sefydlu Rhwydwaith Corau Ymgyrch o gorau ymgyrchu ledled y DU (campaignchoirs.org.uk).

Lotte Reimer

Côr Heddwch y Pales, Llandegla

Côr acapella bach wedi'i leoli yn nhŷ hyfryd y Pales (www.thepales.org), Tŷ Cwrdd y Crynwyr yn Llandegla, ger Llandrindod yw Côr Heddwch Pales. Daw cantorion o bell ac agos i ganu yn yr amgylchedd hardd. Dechreuodd y côr yn 2009, yn dilyn cyngerdd i godi arian ar gyfer gwaith heddwch yn Nagaland, lle perfformiodd Côr Gobaith. Roedd y gwaith heddwch yn cael ei wneud gan Lynda a Martin Williams, wardeiniaid y Pales bryd hynny, a nhw oedd yr ysbrydoliaeth y tu ôl i sefydlu'r Côr Heddwch.

Mae'r côr yn cwrdd yn fisol i ganu am heddwch, cyfiawnder cymdeithasol a'r argyfwng hinsawdd. Maent yn mynychu Gŵyl y Corau Stryd yn gyson a Chân am Ddŵr, a llu o achlysuron lleol, yn cynnwys dadorchuddio polyn Heddwch yn y Pales.

Fel arweinydd y côr, fi hefyd oedd sylfaenydd Côr Gobaith yn 2006, a bûm hefyd yn aelod o'r Côr Cochion yn y 1990au.

Susie Ennals

Canwyr Stryd Bangor

Sefydlwyd Canwyr Stryd Bangor yn dilyn rali Rhagfyr 2015 yn erbyn y cyrchoedd awyr yn Syria. Goleuwyd canhwylau, ac ymunodd 2 neu 3 o leisiau i ganu 'Assalam, Alekum Assalam'. Penderfynsom y noson honno bod ar brotestiadau ym Mangor angen caneuon. Cawsom ein cyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2016, ac rydym wrthi'n adeiladu cronfa o ganeuon protest. Rydym wedi cymryd rhan mewn ralliau i gefnogi Palestina ac i ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r GIG. Rydym wedi cefnogi streiciau'r brifysgol, ymuno â'r streiciau hinsawdd, a chanu mewn digwyddiadau heddwch, yn cynnwys y Cyngerdd Oer bob blwyddyn, i godi arian ar gyfer pobl leol ddigartref.

Hilary Wilson

heddweithredu:

'Mae cân ddân ein hatgoffa o'r hyn 'dan ni'n ymladd drosto' ebe Pete Seeger. Ffurfiwch gôr, ymunwch â chôr, bwcwch gôr. Yng Nghaerdydd, cysylltwch â wendya.lewis@sky.com
Yn Aber, <https://corgobaith.wordpress.com/join-us/>
Ym Mangor, cysyllter â hilarycathwilson@gmail.com
Yn ardal Landrindod, susie@ennals.org.uk

GWOBRAU HEDDYCHWYR IFANC 2020

Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Mae'r Gwobrau Heddychwyr Ifanc yn agored!

Trefnir y Gwobrau ar y cyd gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (y WCIA) ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen,. Dyma gyfle cyffrous i blant a phobl ifanc (rhwng 5 a 25 blwydd oed) yng Nghymru fynegi a rhannu eu syniadau am fyf teinach, mwy heddychlon, a mwy cynaliadwy!

Mae Gwobrau ar gael ar gyfer unigolion neu grwpiau sydd wedi:

- Mynegi eu hunain yn greadigol neu'n feirniadol am heddwch a/neu faterion byd-eang ar ffurf ysgrifenedig, trwy gelf, y cyfryngau digidol neu berfformio;
- Ysbrydoli eraill a gwneud gwahaniaeth ynglŷn â heddwch neu ddinasyddiaeth fyd-eang (e.e. wedi bod yn flaengar fel cyfryngwyr cyfoedion neu trwy weithredu cyfiawnder adferol; wedi dangos arweinyddiaeth trwy drefnu a rhedeg ymgyrch ar fater byd-eang)

Cofiwch nad oes rhaid i'r gwaith fod yn newydd. Gall fod yn rhan o brosiectau a ddatblygwyd eisoes. Gallwch hefyd ymgymryd â'r gwaith fel rhan o'r cwricwlwm neu weithgareddau i'r holl ysgol/grŵp ieuentid (e.e. yr Eisteddfod).

Mae'r Gwobrau yn agored i unigolion neu grwpiau, a gall pobl ifanc enwebu eraill (gyda'u caniatâd!) Gwahoddir enillwyr ym mhob categori i fynychu Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ar 9 Gorffennaf, lle byddant yn derbyn tystysgrif a gwobr o lwyfan yr Eisteddfod.

ELFEN NEWYDD o'r Gwobrau eleni yw **Tlws Heddwch unigryw**, a grëwyd gan yr artist David Peterson (a greodd y Ddraig Gymreig ym Mametz). Cyflwynir y tlws i'r unigolyn neu'r ysgol sydd, yn ôl y beirniaid, wedi bod mwyaf llwyddiannus wrth greu newid yn nhermau heddwch yn eu hysgol neu gymuned neu trwy drefnu ymgyrch ar heddwch neu faterion byd-eang. Cedwir y tlws am flwyddyn.

A wneuch chi hysbysebu'r cyfle hwn mor eang â phosibl ymhlith y plant/pobl ifanc yn eich ysgol/grŵp ieuentid a'u hannog i ymgeisio? **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 29 Mai.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Gwobrau, croeso i chi anfon ebost ataf i yma: janeharries@wcia.org.uk.

JANE HARRIES

Cydlynnydd Addysg Heddwch,
Canolfan Materion Rhyngwladol
Cymru (WCIA)



*Ysgol Dyffryn Aman, 2019 enillwyr yn Eisteddfod
Ryngwladol Llangollen*

WCIA

DIWEDDARIAD CORONAFIRWS

Wrth inni fynd i'r wasg, mae digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu canslo oherwydd pandemig Coronafirws. Mae Seminar Gwanwyn yr NFLA yng Nghaerdydd ar 3 Ebrill wedi'i ganslo. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw syniad sut yr effeithir ar ddiwyddiadau yn ddiweddarach yr haf hwn. Gwiriwch cyn mynychu.

XR Heddwch yn galw am weithredu

Bydd XR Heddwch yn ymuno â Gwrthryfel Parhaus XR yn Llundain i alw sylw at y cysylltiadau rhwng polisi amddiffyn y DU, y fasnach arfau, arfau niwclear a'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Yn lle aflonyddwch ar y strydoedd, canolbwyntir

ar adrannau, sefydliadau a chorfforaethau'r llywodraeth sy'n gyrru'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Bydd XR Heddwch yn gweithredu mewn lleoedd arwyddocaol fel y Weinyddiaeth Amddiffyn a phencadlysoedd cynhyrchwyr arfau.

heddwethredu:

Ymgynnull yn Llundain ddydd Sul 31 Mai, a presenoldeb gweithredol rhwng 1 a 9 Mehefin. Bydd 10 Mehefin yn ddiwrnod o drafod a gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Nodwch y dyddiadau. Os ydych yn bwriadu cymryd rhan fel unigolyn, cysylltwch ag Angie Zelter yn xrpeace@gn.apc.org ac fe'ch rhown mewn cysylltiad ag eraill sydd am wneud, fel y gall y grŵp gynllunio ar y cyd. Edrych ymlaen at glywed gennych!

Gwefan: <https://xrpeace.org>

WYTHNOS EISTEDDFOD TREGARON

Bydd eich rhifyn nesaf o Heddwch allan ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron (1-8 Awst 2020). Bydd CND Cymru yno wrth gws a byddem yn croesawu unrhyw gefnogaeth (manylion cyswllt Brian Jones dros y dudalen).

Ar 6 Awst byddwn yn nodi 75 mlwyddiant gollwng y bom ar Hiroshima, adeg i alaru, myfyrio a magu penderfyniad o'r newydd o blaid achos diarfogi niwclear byd-eang.

Byddwn hefyd yn anrhydeddu Tregaron fel y man lle ganed Henry Richard AS (1812-88), Apostol Heddwch ac ymgyrchydd arloesol dros ryngwladoliaeth.

ADOLYGIAD

A Nuclear Refrain: Emotion, Empire and the Democratic Potential of Protest

Kye Askins, Phil Johnstone, Kelvin Mason


Punctum Books 2019 £15
146 tud., clawr-papur neu e-lyfr

Ganed y prosiect hwn yn 2016 yn ystod gweithredu uniongyrchol ger ffatri fomiau niwclear SAA Burghfield. Beth, efallai y byddwch chi'n gofyn, fyddai 'Blocêd Seminar Academaidd' yn ei gyflawni? Yr ateb yw'r llyfryn clawr-papur hwn. Bu gennyf ddiddordeb

erioed yn y ffiniau rhwng y ffeithiol a'r naratif, man cyfarfod digon cyffredin mewn llyfrau i bobl ifanc. Ond mae'r cyfuniad hwn o esboniad academaidd (troednodiadau, llyfryddiaeth a'r cwbl) o fewn strwythur naratif A Christmas Carol gan Charles Dickens yn arbrawf ar lefel wahanol, yn chwareus ond yn ddirifol, ac mae'n gweithio'n dda.

Mae polisïau braw-ataliaeth, 'cyd-ddinistr sicr' ac olynu Trident, a fabwysiedir gan Scrooge cyfoes, yn destun croesholi moesol chwyrn. Mae Kelvin Mason o

Aberystwyth, 'para-academydd' a threfnydd Fforwm Gymdeithasol Cymru, yn ymuno â Kye Askins o Brifysgol Glasgow a Paul Johnstone o Brifysgol Sussex i greu synthesis dyfeisgar ac addysgiadol.



Philip Steele

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

www.cndcymru.org
heddwch@cndcymru.org
trydar: @cndcymru
gwpeylfr: cndcymru
Cadeirydd: Jill Evans

CYSYLLTIADAU:

Brian Jones
01792 830 330
brian.jones@phonecoop.coop

Duncan Rees
07534 975 461
Duncan.rees01@gmail.com

Philip Steele
01248 490 715
phil_steele@btinternet.com

John Cox
01495 773 495
drjohncox121@gmail.com

Trysorydd, Aelodau ac Aelodaeth Grwp:

Michael Freeman,
CND Cymru,
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

Ysgrifenydd
Cenedlaethol:
C/o Llys Gwyn, Glynarthen,
Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188



HEDDWCH

yw cylchgrawn yr
Ymgyrch Ddiarfog
Niwclear yng Nghymru
(CND Cymru)

Golygydd:
Philip Steele
phil_steele@btinternet.com

Cyfieithydd:
Siân Edwards
sian@siandefynnog.wales

Cynhyrchu a phostio:
Redkite Print
jon@thefreeflyer.com

Nid yw cynnwys
HEDDWCH o
anghenraid yn
adlewyrchu barn neu
bolisiau C N D Cymru.
Rydym yn croesawu
dadl a thrafodaeth.

Anfonwch unrhyw
sylwadau, cyfraniadau
neu ddyddiadau am
ddigwyddiadau at y
golygydd.

Bydd y rhifyn nesaf
o HEDDWCH yn
ymddangos yn Haf
2020.

